

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**  
**30 AWST 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Mercher, 30 Awst 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Richard Lloyd (Cadeirydd)**

Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Paul Cunningham, Rob Davies, Adele Davies-Cooke, Carol Ellis, Gladys Healey, Paul Johnson, Richard Jones, Hilary McGuill, Mike Peers a Dan Rose

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Helen Brown, Dave Hughes a Ted Palmer

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y canlynol yn bresennol fel Aelodau Lleol:

Y Cynghorwyr Glyn Banks a Gina Maddison - eitem 6.1 ar y rhaglen (FUL/000077/22)

Y Cynghorydd Ian Hodge - eitem rhif 6.2 ar yr agenda (OUT/000042/22)

Y Cynghorwyr Marion Bateman a Linda Thew - eitem rhif 6.5 ar y rhaglen (063810)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd – Rheoli Datblygiad Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddogion Gwasanaethau Democraidd

**14. DATGAN CYSYLLTIAD**

Datganodd y Cadeirydd gysylltiad personol gydag eitem rhif 6.1 ar y rhaglen (FUL/000077/22), gan fod wedi cael cyswllt, ar fwy na dri achlysur, gydag aelodau o'r cyhoedd a'r ymgeisydd, ond heb ymateb i'r negeseuon.

Dywedodd y Cyfreithiwr wrth y Pwyllgor bod y rheoliadau ar ddatgan cysylltiad wedi newid i adlewyrchu'r 'cyswllt sylweddol' ar geisiadau cynllunio mewn perthynas ag Aelod yn derbyn gohebiaeth pedwar neu ragor o weithiau gan yr ymgeisydd, neu'r gwrthwynebydd, ar lafar, neu'n ysgrifenedig.

**15. SYLWADAU HWYR**

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac a oedd wedi eu hatodi i'r eitem yn y rhaglen ar wefan y Cyngor:

<https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=5494&LLL=0>

**16. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2023 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Mike Peters a Richard Jones.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**17. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Cynghorodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod eitemau rhif 6.3 a 6.4 ar y rhaglen yn cael eu hargymell i'w gohirio oherwydd problemau ar yr ymweliad safle, ac i ddatrys materion technegol ar lefelau safle arfaethedig a threfniadau mynediad ar gyfer parcio. Cafodd yr argymhelliad ei gynnig a'i eilio gan y Cynghorwyr Chris Bithell a Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

Bod eitemau rhif 6.3 a 6.4 ar y rhaglen (FUL/000621/23 a CONS/000790/22) yn cael eu gohirio i ddatrys materion mynediad a thechnegol, ac i alluogi ymweliad safle pellach, ac adroddiad diwygiedig ar gyfer dyddiad yn y dyfodol.

**18. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi'r penderfyniadau fel maent ar y rhestr o Geisiadau Cynllunio sydd wedi'i chynnwys fel atodiad.

**19. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL**

Roedd naw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a daeth i ben am 3.25pm)

.....  
**Y Cadeirydd**

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau yma: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

**PWYLLGOR CYNLLUNIO 30 AWST 2023**

<b>RHIF YR EITEM</b>	<b>CYNGOR TREF / CYMUNED</b>	<b>SAFLE / CAIS</b>	<b>SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
FUL/ 000077/22	Cyngor Cymuned Llanasa	Cais Llawn - Codi 21 annedd fforddiadwy gyda mynediad i'r briffordd y gellir ei mabwysiadu ar Ffordd Rhewl Fawr, Penyffordd, Treffynnon	Siaradodd John Grange (preswlydd) yn erbyn y cais.  Siaradodd Chris Ralphs (asiant) o blaid y cais.  Siaradodd y Cyngorydd Glyn Banks a Gina Maddison (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais.	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar Rwymedigaeth Adran 106 a'r amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.
OUT/ 000042/22	Cyngor Tref Treffynnon	Cais amlinellol - Dymchwel annedd bresennol a chodi bloc o bedwar rhandy preswyl, gydag un yn fforddiadwy, ynghyd â'r gwaith tir cysylltiedig yn Lornell, Halkyn Street. Treffynnon, Sir y Fflint	Siaradodd Sioned Edwards (Asiant) o blaid y cais.  Siaradodd y Cyngorydd Ian Hodge (Cyngor Tref Treffynnon) yn erbyn y cais.  Siaradodd y Cyngorydd Paul Johnson yn erbyn y cais, ar ran Ted Palmer (Aelod Lleol).	Rhoi caniatâd cynllunio yn ddibynnol ar yr amodau a restrir yn yr adroddiad yn unol ag argymhelliad y swyddog.

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF / CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
FUL/ 000621/23	Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Cais Llawn - Trawsnewid ac ymestyn adeilad allan i ffurfio swyddfa gartref a champfa, dymchwel rhan o wal ffin i greu man parcio oddi ar y stryd, gyda phwynt gwefru cerbyd trydan yn Arweinfaf, Gwaenysgor	-	Bod y cais yn cael ei ohirio i ddatrys materion mynediad a thechnegol, ac i alluogi ymweliad safle pellach, ac adroddiad diwygiedig ar gyfer dyddiad yn y dyfodol.
CONS/ 000790/22	Cyngor Cymuned Trelawnyd a Gwaenysgor	Cais mewn ardal gadwraeth - Trawsnewid ac ymestyn adeilad allan i ffurfio swyddfa gartref a champfa; a dymchwel rhan o wal ffin i greu man parcio oddi ar y stryd, gyda phwynt gwefru cerbyd trydan yn Arweinfaf, Gwaenysgor	-	Bod y cais yn cael ei ohirio i ddatrys materion mynediad a thechnegol, ac i alluogi ymweliad safle pellach, ac adroddiad diwygiedig ar gyfer dyddiad yn y dyfodol.
063810	Cyngor Cymuned Llaneurgain	Cais Llawn - Codi 12 o gabanau gwyliau, derbynfa/swyddfa a gwaith cysylltiedig ym Mharc Gwledig Llaneurgain, Llaneurgain, yr Wyddgrug	Siaradodd y Cyngorydd Marion Bateman a Linda Thew (Aelodau Lleol) yn erbyn y cais.	<p>Bod y cais yn cael ei gyfeirio'n ôl i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i nodi nad yw'r Pwyllgor yn cefnogi'r argymhelliad i roi caniatâd cynllunio am y rhesymau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid yw manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn gorbwyso'r niwed amgylcheddol a'r problemau o ran iechyd y</li> </ul>

<b>RHIF YR EITEM</b>	<b>CYNGOR TREF / CYMUNED</b>	<b>SAFLE / CAIS</b>	<b>SYLWADAU TRYDYDD PARTI / AELODAU LLEOL</b>	<b>PENDERFYNIAD</b>
				<p>cyhoedd.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Nid oes modd cyfiawnhau'r cais yn y lleoliad hwn.</li><li>• Effaith gronnus hyn, a'r datblygiad arfaethedig arall.</li><li>• O ganlyniad, nid yw'r cais yn cefnogi amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</li></ul>